



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2017 Rhif 453 (Cy. 96)**

**2017 No. 453 (W. 96)**

**ADNODDAU DŴR, CYMRU**

**WATER RESOURCES, WALES**

**Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi  
(Diwygio) (Cymru) 2017**

**The Bathing Water (Amendment)  
(Wales) Regulations 2017**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 (dyfroedd wyneb yng Nghymru) i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("y Rheoliadau"), sy'n rhestru'r dyfroedd a nodwyd gan Weinidogion Cymru fel dyfroedd ymdrochi yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Traeth Glan Don Beach at y rhestr o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yn y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, nid oes unrhyw asesiad effaith wedi ei lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn gan nad oes unrhyw newid i bolisïau, nac unrhyw effaith ar fusnesau na'r sector gwirfoddol yn cael ei rhagweld.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend Part 2 of Schedule 2 (surface waters in Wales) to the Bathing Water Regulations 2013 ("the Regulations"), which lists the waters identified by the Welsh Ministers as bathing waters in Wales.

Regulation 2 of these Regulations adds Traeth Glan Don Beach to the list of identified bathing waters in the Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, no impact assessment has been produced for these Regulations as there is no change to policy, or impact on business or the voluntary sectors foreseen.

**2017 Rhif 453 (Cy. 96)**

**ADNODDAU DŴR, CYMRU**

**Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi  
(Diwygio) (Cymru) 2017**

*Gwnaed* 20 Mawrth 2017

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 23 Mawrth 2017

*Yn dod i rym* 1 Mai 2017

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr, ac yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori mewn perthynas â rheoliad 6 o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013(3).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 1 Mai 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2017 No. 453 (W. 96)**

**WATER RESOURCES, WALES**

**The Bathing Water (Amendment)  
(Wales) Regulations 2017**

*Made* 20 March 2017

*Laid before the National Assembly for Wales*  
23 March 2017

*Coming into force* 1 May 2017

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to measures relating to water resources and make these Regulations in exercise of the powers conferred by that section.

The Welsh Ministers have consulted in relation to regulation 6 of the Bathing Water Regulations 2013(3).

**Title, application and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Bathing Water (Amendment) (Wales) Regulations 2017 and they come into force on 1 May 2017.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

---

(1) *Gweler* O.S. 2003/2901 ar gyfer y dynodiad a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 28 o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw bellach wedi ei roi i Weinidogion Cymru.

(2) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(3) O.S. 2013/1675; fel y'i diwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 2014/1067 (Cy. 106) ac O.S. 2016/314 (Cy. 103).

---

(1) *See* S.I. 2003/2901 for the designation conferred on the National Assembly for Wales. By virtue of sections 59 and 162 of, and paragraph 28 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), that designation is now conferred on the Welsh Ministers.

(2) 1972 c. 68; section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).

(3) S.I. 2013/1675; as amended in relation to Wales by S.I. 2014/1067 (W. 106) and S.I. 2016/314 (W. 103).

**Diwygio Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013**

2. Yn Rhan 2 o Atodlen 2 (dyfroedd wyneb yng Nghymru) i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar ôl “Tenby South”, mewnosoder “Traeth Glan Don Beach”.

**Amendment of Part 2 of Schedule 2 to the Bathing Water Regulations 2013**

2. In Part 2 of Schedule 2 (surface waters in Wales) to the Bathing Water Regulations 2013 after “Tenby South” insert “Traeth Glan Don Beach”.

*Jane Hutt*

Un o Weinidogion Cymru  
20 Mawrth 2017

---

©Hawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

One of the Welsh Ministers  
20 March 2017

---

© Crown copyright 2017

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2017 Rhif 453 (Cy. 96)**

**2017 No. 453 (W. 96)**

**ADNODDAU DŴR, CYMRU**

**WATER RESOURCES, WALES**

Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi  
(Diwygio) (Cymru) 2017

The Bathing Water (Amendment)  
(Wales) Regulations 2017